O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2447 (Cy. 265)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Aros) 2012

Gwnaed	*20 Medi 2012*
Yn dod i rym	*28 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1) , 2(1) a (2), 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Aros) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae i "bathodyn person anabl" yr ystyr a roddir i "disabled person's badge" yn Rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(**2**).

mae i "disg barcio" yr ystyr a roddir i "parking disc" yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**3**) .

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-

(**1**) 1984 p.27 Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru
(**2**) O.S. 2000/1786.
(**3**) O.S. 2000/1785.

(a) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos ar y panel neu'r dangosfwrdd fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(b) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg parcio yn y lle perthnasol :-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael